

Gwaith atgyweirio ac amodau mewn cartrefi rhent

Canllaw i etholwyr

Gorffennaf 2026



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
[**ymchwil.senedd.cymru**](http://ymchwil.senedd.cymru)

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

X: [**@SeneddYmchwil**](https://twitter.com/SeneddYmchwil)
Ymchwil y Senedd: [**ymchwil.senedd.cymru**](http://ymchwil.senedd.cymru)
Tanysgrifiwch: [**Cylchlythyr**](http://cylchlythyr.senedd.cymru)

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Gwaith atgyweirio ac amodau mewn cartrefi rhent

Canllaw i etholwyr

Gorffennaf 2026

Awdur:

Gwennan Hardy

Mae Ymchwil y Senedd yn darparu cymorth ymchwil diduedd i Aelodau o'r Senedd. Ni allwn ohebu yn uniongyrchol ag unigolion neu sefydliadau eraill, na rhoi cyngor na sylwadau ar achosion unigol.

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y canllaw hwn at ddibenion gwybodaeth gyffredinol yn unig i gefnogi gwaith Aelodau o'r Senedd. Ni fwriedir iddo gymryd lle deddfwriaeth, canllawiau, polisi na chyngor proffesiynol.





Cynnwys

1. Y cefndir.....	8
I bwy mae'r canllaw hwn yn berthnasol?	8
Gwirio telerau eich contract.....	9
2. Pa safonau y mae rhaid i gartrefi rhent eu bodloni?.....	10
Rhwymedigaeth i sicrhau bod annedd yn ffit i bobl fyw ynddi	10
Rhwymedigaeth i gadw'r annedd mewn cyflwr da.....	12
Safonau ychwanegol ar gyfer tai cymdeithasol.....	12
3. Pa hawliau a chyfrifoldebau sydd gan denantiaid?.....	14
Gofalu am yr eiddo.....	14
Gwaith atgyweirio	15
Caniatáu mynediad i'r eiddo.....	16
Atal rhent.....	16
Gwarchodaeth rhag troi allan.....	17
Achos o dorri contract.....	17
4. Beth os na chaiff gwaith atgyweirio ei wneud neu os caiff ei ohirio?	19
Gwneud cwyn i'ch landlord.....	19
Gwneud cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.....	20
Adrodd problem i'r tîm iechyd amgylcheddol lleol.....	20
Adrodd problem i Rhentu Doeth Cymru.....	21
Cymryd camau cyfreithiol	21
5. Cael cyngor a chymorth	23
Shelter Cymru	23
Cyngor ar Bopeth	23

1. Y cefndir

Mae'r wybodaeth yn y canllaw hwn yn seiliedig yn bennaf ar Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("y Ddeddf"). Mae'r ddeddfwriaeth hon yn pennu'r rheolau y mae rhaid i'r rhan fwyaf o denantiaethau preswyl yng Nghymru lynu wrthynt.

I bwy mae'r canllaw hwn yn berthnasol?

O dan y Ddeddf, y term a ddefnyddir i ddisgrifio cytundeb tenantiaeth rhwng landlord a thenant yw **contract meddiannaeth**. Mae contract meddiannaeth yn nodi hawliau a chyfrifoldebau tenantiaid a landlordiaid.

Mae'r canllaw hwn wedi'i anelu at denantiaid a landlordiaid sydd â chontractau meddiannaeth mewn tai rhent preifat neu gymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o gytundebau tenantiaeth yng Nghymru yn gontractau meddiannaeth, ond mae rhai eithriadau.

Maent yn cynnwys y canlynol:

- Rhai mathau o lety dros dro neu lety â chymorth;
- Rhai tenantiaethau amaethyddol;
- Llety ar gyfer y lluoedd arfog;
- Llety lloches;
- Llety sy'n cael ei rannu gyda'r landlord (e.e. trefniadau lletya);
- Llety sy'n cael ei rentu i bobl o dan 18 oed;
- Tenantiaethau busnes;
- Cytundebau tenantiaeth a ddechreuodd cyn mis Ionawr 1989; a
- Llety gwyliau.

Mae manylion llawn am y mathau o denantiaethau nad ydynt wedi'u cynnwys wedi'u nodi yn Atodlen 2 i'r Ddeddf.

Gwirio telerau eich contract

Mae'r Ddeddf yn nodi rhai telerau y mae rhaid eu cynnwys ym mhob contract meddiannaeth, a rhai telerau y caniateir eu cynnwys.

Tabl 1: Mathau o delerau contract

Telerau sylfaenol	Rhaid cynnwys y rhain ym mhob contract meddiannaeth. Gellir newid neu ddileu rhai telerau sylfaenol, ond dim ond os yw hyn o fudd i'r tenant ac os yw wedi cydsynio i'r newidiadau
Telerau atodol	Rhaid cynnwys y rhain ym mhob contract meddiannaeth, oni bai bod y tenant wedi cytuno iddynt gael eu newid neu eu dileu.
Telerau ychwanegol	Gellir cynnwys y rhain mewn contract meddiannaeth, os yw'r landlord a'r tenant yn cytuno arnynt. Rhaid iddynt fod yn gydnaws â'r telerau sylfaenol neu atodol a nodir yn y Ddeddf.

Mae Rhentu Doeth Cymru wedi cyhoeddi **canllaw ar delerau contract** ar ei wefan.

Dylech wirio eich contract bob amser er mwyn deall beth yw eich hawliau a'ch rhwymedigaethau. Rhaid i bob contract meddiannaeth gynnwys rhai pethau, ond gall pob contract gynnwys telerau ac amodau gwahanol.

2. Pa safonau y mae rhaid i gartrefi rhent eu bodloni?

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i landlord sicrhau bod yr eiddo y mae'n ei osod yn ffit i bobl fyw ynddo ac mewn cyflwr da.

Mae'r rhwymedigaethau hyn wedi'u nodi yn **Neddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016** ("y Ddeddf"). Y term a ddefnyddir ar eu cyfer yw **darpariaethau sylfaenol**, sy'n golygu bod rhaid eu cynnwys ym mhob contract tenantiaeth (ar yr amod eu bod am gyfnod o lai na 7 mlynedd).

Rhwymedigaeth i sicrhau bod annedd yn ffit i bobl fyw ynddi

Mae'n ofynnol i landlord **sicrhau bod cartref rhent yn ffit i bobl fyw ynddo**, ar ddechrau tenantiaeth a thrwy gydol cyfnod y contract.

Nid yw'r gyfraith yn nodi'r meini prawf y mae rhaid i eiddo eu bodloni er mwyn iddo gael ei ystyried yn ffit i bobl fyw ynddo. Yn hytrach, mae **29 o 'faterion ac amgylchiadau'** y mae rhaid eu hystyried wrth benderfynu a yw eiddo yn ffit i bobl fyw ynddo (gweler Tabl 2 isod).

Bwriad y Ddeddf yw sicrhau bod eiddo yn rhydd o beryglon sy'n gysylltiedig â'r materion a'r amgylchiadau hyn, a sicrhau bod landlordiaid yn gweithio i atal peryglon o'r fath rhag codi.

Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar yr hyn y disgwylir i'r landlord ei wneud. Mae'r gyfraith yn nodi nad oes atebolrwydd pan nad oes modd i'r landlord wneud yr eiddo yn ffit i bobl fyw ynddo "am gost resymol". Nid oes gofyn i'r landlord gadw mewn cyflwr da unrhyw beth y mae gan y tenant hawl mynd ag ef o'r annedd, nac i ailadeiladu nac adfer cyflwr yr eiddo os caiff ei ddifrodi gan dân, storm, llifogydd neu ddamwain anochel arall.

Tabl 2: Y 29 o faterion ac amgylchiadau ar gyfer penderfynu a yw eiddo'n ffit i bobl fyw ynddo

Lleithder a thyfiant llwydni	Gorlenwi a gofod	Cwmpo ar risiau etc.
Oerfel	Tresmaswyr yn dod i mewn	Cwmpo rhwng arwynebau
Gwres	Goleuo	Peryglon trydanol
Asbestos a ffibrau mwynau a weithgynhyrchwyd	Sŵn	Tân
Bioladdwyr	Hylendid domestig, plâu a sbwriel	Fflamau, arwynebau poeth etc.
Carbon monocsid a chynhyrchion hylosgi tanwydd	Diogelwch bwyd	Taro yn erbyn neu fynd yn sownd
Plwm	Hylendid personol, carthffosiaeth a draeniau	Ffrwydradau
Ymbelydredd	Cyflenwad dŵr	Safle amwynderau a'u gweithrediad etc.
Nwy tanwydd nas hylosgwyd	Cwmpo yn gysylltiedig â baddonau etc.	Dymchwel strwythurol ac elfennau'n disgyn
Cyfansoddion organig anweddol	Cwmpo ar arwynebau	

Ffynhonnell: **Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) 2022**

Mae Rheoliadau hefyd yn **gosod rhai gofynion penodol** ar landlordiaid o ran atal peryglon rhag codi. **Rhaid** i landlordiaid sicrhau:

- bod larwm mwg ar bob llawr o'r annedd sy'n gweithio'n iawn, sydd wedi'i gysylltu â'r cyflenwad trydan, ac sydd wedi'i gysylltu â phob larwm mwg arall;
- bod larwm carbon monocsid sy'n gweithio'n iawn ym mhob ystafell sy'n cynnwys cyfarpar nwy, cyfarpar hylosgi sy'n cael ei danio ag olew neu gyfarpar hylosgi sy'n llosgi tanwydd solet; a
- bod gosodiadau gwasanaeth trydanol yn cael eu harchwilio a'u profi yn rheolaidd, a bod gan yr eiddo Adroddiad ar Gyflwr y Gosodiad Trydanol (EICR) sy'n ddilys.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **canllawiau i landlordiaid** sy'n nodi eu rhwymedigaethau o dan y gyfraith a'r camau y gellir eu cymryd i sicrhau bod eiddo yn ffit i bobl fyw ynddo.

Rhwymedigaeth i gadw'r annedd mewn cyflwr da

Mae'n ofynnol i landlordiaid **sicrhau bod cartref rhent yn cael ei gadw mewn cyflwr da**. Golyga hyn fod yn rhaid iddynt gymryd y camau a ganlyn:

- cadw'r strwythur a'r tu allan i'r annedd (gan gynnwys draeniau, landeri a phibellau allanol) mewn cyflwr da, a
- chadw'r gosodiadau gwasanaeth yn yr annedd (megis dŵr, nwy a thrydan) mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn.

Mae'r Ddeddf yn dweud bod rhaid cadw cartref rhent mewn cyflwr da, ac i safon sy'n rhesymol "o ystyried oed a chymeriad yr annedd", a'r cyfnod y mae'r annedd yn debygol o fod ar gael i'w meddiannu fel cartref.

Dim ond os yw'r diffygion dan sylw yn cael effaith ar ddefnydd neu fwynhad tenant o'r eiddo y bydd disgwyl i landlord wneud gwaith neu atgyweiriadau.

Safonau ychwanegol ar gyfer tai cymdeithasol

Yn ogystal â bodloni'r rhwymedigaethau cyfreithiol hyn, mae'n ofynnol i landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru hefyd sicrhau bod pob cartref cymdeithasol yn bodloni ac yn cynnal **Safon Ansawdd Tai Cymru** (SATC).

Yn ôl Safon Ansawdd Tai Cymru, rhaid i bob cartref cymdeithasol:

- fod mewn cyflwr da;
- bod yn ddiogel;
- bod yn fforddiadwy i'w wresogi a chael yr effaith leiaf posibl ar yr amgylchedd;
- cael cegin a lle aml-bwrpas cyfoes;
- cael ystafell ymolchi gyfoes;
- bod yn gyfforddus, gan hyrwyddo llesiant;
- cael gardd addas; a
- chael lle awyr agored deniadol.

Er mwyn i gartref cymdeithasol gyrraedd y safon, rhaid iddo fodloni gofynion penodol o fewn pob un o'r elfennau hyn.

Mewn sefyllfa lle nad yw cartref cymdeithasol yn bodloni'r safon ar hyn o bryd, rhaid i'r landlord cymdeithasol weithio tuag at ei chyrraedd. Disgwylir i bob cartref cymdeithasol gyrraedd y safon erbyn 2034, er bod modd cyflawni rhai elfennau sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio yn ddiweddarach.

Nid yw Safon Ansawdd Tai Cymru yn berthnasol i gartrefi sy'n cael eu rhentu'n breifat.

3. Pa hawliau a chyfrifoldebau sydd gan denantiaid?

Mae gan denant hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol o ran gwneud gwaith atgyweirio a chynnal cyflwr yr eiddo y mae'n ei rentu.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn delerau atodol, sy'n golygu bod rhaid eu cynnwys mewn contractau meddiannaeth, oni bai bod y tenant wedi cytuno i'w dileu. Fodd bynnag, dylech wirio eich contract meddiannaeth eich hun bob amser er mwyn deall beth yw eich hawliau a'ch cyfrifoldebau.

Gofalu am yr eiddo

Nid yw tenant **yn atebol** am draul gyffredinol i'r eiddo. Fodd bynnag, mae ganddo rwymedigaethau cyffredinol i ofalu am yr eiddo. Maent yn cynnwys y canlynol:

- gofalu am yr annedd, gan gynnwys gosodiadau, ffitiadau ac unrhyw eitemau a restrir mewn unrhyw restr eiddo;
- peidio â symud o'r annedd unrhyw osodiadau, ffitiadau nac eitemau heb gydsyniad y landlord;
- cadw'r annedd wedi'i haddurno mewn cyflwr rhesymol; a
- pheidio â chadw unrhyw beth a fyddai'n peri risg iechyd a diogelwch yn yr eiddo.

Mae'n bosibl na fydd y landlord yn atebol am wneud gwaith atgyweirio os yw'r broblem dan sylw wedi codi yn sgil rhywbeth a wnaeth y tenant (neu ei westeion), neu yn sgil diffyg gofal dyladwy. Os yw'r tenant yn credu mai ef (neu ei westai) sy'n gyfrifol am y difrod neu'r diffyg gwaith atgyweirio, **mae'n bosibl y bydd gofyn i'r tenant** atgyweirio neu amnewid eitemau ei hun.

Gwaith atgyweirio

Fel arfer, mae'n ofynnol i denant roi gwybod i'w landlord am unrhyw broblemau neu ddiffygion neu achosion o ddiffyg gwaith atgyweirio cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Disgwylir i'r landlord wneud y gwaith o fewn cyfnod rhesymol ar ôl iddo gael gwybod am y mater. Os ydych yn byw mewn **cartref cymdeithasol**, mae amserlenni penodol y disgwylir i'ch landlord lynu wrthynt wrth archwilio ac unioni rhai peryglon (gweler Blwch 1 isod).

Mae landlordiaid hefyd yn gyfrifol am wneud iawn am unrhyw ddifrod a achosir gan waith ac atgyweiriadau.

Blwch 1: Amserlenni ar gyfer ymchwilio i beryglon mewn tai cymdeithasol a'u hunioni

O fis Ebrill 2026 ymlaen, bydd disgwyl i landlordiaid cymdeithasol ymchwilio i beryglon penodol a'u hunioni o fewn amserlenni penodol (gan ddibynnu ar ddifrifoldeb y risg). Cafodd y rheolau hyn eu creu drwy atodiad i Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).

Bydd yr amserlenni a ganlyn yn gymwys:

- **Ar gyfer peryglon sydd â thebygolrwydd a aseswyd o niwed uniongyrchol** – rhaid i'r landlord cymdeithasol ymchwilio iddynt o fewn 24 awr a'u hunioni o fewn 24 awr arall.
- **Ar gyfer peryglon heb unrhyw debygolrwydd a aseswyd o niwed uniongyrchol** – rhaid i'r landlord ymchwilio iddynt o fewn 10 diwrnod gwaith, a'u hunioni o fewn 5 diwrnod gwaith arall.

Mewn achosion lle nad oes modd unioni perygl o fewn yr amserlenni hyn, rhaid i'r landlord cymdeithasol ddarparu cynllun cryno ysgrifenedig i'r tenant o fewn 5 diwrnod gwaith. Dylai'r cynllun nodi natur y perygl a'r camau a gaiff eu cymryd i sicrhau bod yr eiddo'n ddiogel.

Mae'r rheol newydd yn berthnasol i bob perygl yn y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (yr HHSRS), ac eithrio gorlenwi, sydd:

- yn cyflwyno risg sylweddol bosibl i'r tenant neu'r meddiannydd; ac

- yn deillio o ddiffygion cydrannau adeilad neu gyflwr gwael sydd o fewn rheolaeth y landlord.

Bydd gofyn hefyd i'r landlord cymdeithasol ystyried amgylchiadau'r tenant, gan gynnwys unrhyw wendidau, wrth asesu'r risg a berir gan berygl a gaiff ei adrodd iddo.

Caniatáu mynediad i'r eiddo

Mae **gan landlord yr hawl** i fynd i mewn i'r annedd ar unrhyw adeg resymol er mwyn ei harchwilio neu er mwyn gwneud gwaith atgyweirio. Fodd bynnag, rhaid iddo roi o leiaf 24 awr o rybudd i ddeiliad y contract cyn gwneud hynny.

Mewn argyfwng, mae gan y landlord yr hawl i fynd i mewn i'r annedd **heb roi rhybudd** a heb ofyn am ganiatâd y tenant. Byddai argyfwng fel arfer yn golygu rhywbeth sy'n peri bygythiad uniongyrchol i iechyd a diogelwch y tenant, neu sy'n gofyn am gamau gweithredu ar unwaith er mwyn atal difrod i'r eiddo.

Atal rhent

O dan y Ddeddf, **nid yw tenant yn atebol i dalu rhent** am y cyfnod pan nad yw eiddo yn 'ffit i bobl fyw ynddo' (gweler Adran 2).

Fodd bynnag, mae hwn yn un o'r telerau atodol, sy'n golygu y gellir ei ddileu o contract meddiannaeth os yw'r tenant yn cytuno i wneud hynny.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **canllawiau i denantiaid** ar ffitrwydd i fod yn gartref. Mae'n dweud y dylai tenantiaid ystyried yn ofalus ai atal rhent yw'r peth iawn i'w wneud, gan rybuddio:

“Efallai na fydd landlord ac, yn y pen draw, y llys yn cytuno nad yw'r annedd yn ffit i fod yn gartref. Felly, mae'n bosibl y bydd deiliad y contract yn mynd i ôl-ddyledion rhent ac, o bosibl, yn wynebu achos cymryd meddiant.”

Mewn achos lle mae'r tenant yn penderfynu atal rhent, mae'r canllawiau'n argymhell ei fod yn rhoi'r rhent o'r neilltu nes i'r mater gael ei ddatrys. Mae Shelter Cymru **hefyd yn cynghori** tenantiaid i roi arian o'r neilltu os ydynt yn penderfynu atal rhent, fel y gallant dalu ôl-ddyledion yn gyflym os bydd angen.

Gwarchodaeth rhag troi allan

Mae gan denant sydd wedi gofyn am waith atgyweirio **rywfaint o warchodaeth** rhag cael ei droi allan yn ddialgar.

Mae achos o droi tenant allan yn ddialgar yn digwydd pan fo'r landlord yn penderfynu defnyddio'r pŵer i droi allan 'heb fai' (h.y. ceisio gorchymyn adennill meddiant o dan **Adran 173 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016**) i droi tenant allan er mwyn osgoi cydymffurfio â'i rwymedigaeth o ran cadw'r eiddo mewn cyflwr da ac yn ffit i bobl fyw ynddo. Os bydd y llys yn penderfynu bod yr achos o droi allan yn un dialgar, caiff wrthod caniatáu hawliad meddiant y landlord.

Mae'r landlord hefyd **wedi'i wahardd rhag** cyhoeddi hysbysiad troi allan 'heb fai' mewn achosion lle nad yw'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol penodol. Mae hyn yn cynnwys achosion lle'r ystyrir nad yw eiddo'n 'ffit i bobl fyw ynddo' (gweler Adran 2) oherwydd:

- nid yw'r landlord wedi sicrhau bod larymau mwg sy'n gweithio a, lle bo angen, larymau carbon monocsid sy'n gweithio, wedi'u gosod;
- nid yw'r landlord wedi darparu adroddiad ar gyflwr y gosodiad trydanol; neu
- nid yw'r landlord wedi darparu adroddiad diogelwch nwy.

Fodd bynnag, dim ond pan fydd y landlord yn defnyddio'r pŵer i droi allan 'heb fai' y mae'r amddiffyniadau hyn yn gymwys. Gall landlord droi tenant allan am resymau eraill o hyd (e.e. os oes ganddo ôl-ddyledion rhent).

Achos o dorri contract

Gellir ystyried bod tenant wedi torri contract os nad yw'n cyflawni'r rhwymedigaethau a nodir uchod (e.e. gofalu am yr eiddo neu ganiatáu mynediad ar gyfer gwaith atgyweirio).

Mae'r Ddeddf yn darparu y gall y landlord geisio troi'r tenant allan drwy **wneud hawliad meddiant** ar sail y ffaith bod y tenant wedi torri'r contract. Ni chaiff y llys wneud gorchymyn meddiant ar y seiliau hyn oni bai ei fod yn ystyried ei bod yn rhesymol gwneud hynny, o ystyried natur, amllder a hyd yr achos o dorri'r contract dan sylw. Bydd yr amgylchiadau'n dibynnu ar bob contract unigol.

Dylech geisio cyngor os ydych wedi cael hawliad meddiant. Mae rhestr o ffynonellau cyngor a chymorth i'w gweld ar ddiwedd y canllaw hwn.

Mae Ymchwil y Senedd hefyd wedi **cyhoeddi canllaw ar gael cyngor cyfreithiol.**

4. Beth os na chaiff gwaith atgyweirio ei wneud neu os caiff ei ohirio?

Mae sawl opsiwn ar gael os ydych yn cael trafferth sicrhau bod eich landlord yn gwneud gwaith atgyweirio. Bydd eich opsiynau'n wahanol yn dibynnu ar ba un a ydych yn byw mewn cartref cymdeithasol neu'n rhentu gan landlord preifat.

Yn y lle cyntaf, dylid rhoi gwybod i'r landlord neu'r asiant gosod tai am unrhyw waith atgyweirio neu amodau gwael yn yr eiddo.

Mae sefydliad Rhentu Doeth Cymru wedi [cyhoeddi canllawiau ar ei wefan](#) ar gyfer tenantiaid preifat sy'n dymuno rhoi gwybod am waith atgyweirio. Mae sefydliadau fel [Shelter Cymru](#) a [Cyngor ar Bopeth](#) hefyd wedi cyhoeddi cyngor i denantiaid cymdeithasol a phreifat ynghylch sut i roi gwybod am waith atgyweirio a pha wybodaeth y dylid ei darparu.

Gwneud cwyn i'ch landlord

Os nad yw eich landlord neu asiant wedi trefnu bod gwaith atgyweirio yn cael ei wneud, neu os ydynt yn cymryd amser hir i weithredu, gallwch wneud cwyn uniongyrchol iddynt.

Yn eich cwyn, efallai y byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn disgrifio beth yw natur y broblem a pha gamau yr hoffech i'r asiant neu'r landlord eu cymryd.

Os ydych yn byw mewn **cartref cymdeithasol**, dylai fod gan eich cyngor neu landlord cymdeithasol dai bolisi cwynion sy'n nodi sut i wneud cwyn, a beth i'w ddisgwyl. Bydd llawer yn cyhoeddi eu polisi cwynion ar-lein. Fel arall, gallwch ofyn i'ch landlord ddarparu copi.

Gwneud cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Os ydych yn byw mewn **cartref cymdeithasol**, efallai y byddwch yn gallu gwneud cwyn i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am eich cyngor neu landlord cymdeithas dai.

Gall yr Ombwdsmon **ymchwilio i weld** a yw landlord cymdeithasol wedi methu â gwneud gwaith atgyweirio, neu a yw wedi methu â chwblhau gwaith atgyweirio o fewn amser rhesymol. Fodd bynnag, cyn cyflwyno mater i'r Ombwdsmon, rhaid i denant wneud cwyn i'r landlord a rhoi cyfle rhesymol iddo ymateb i'r gŵyn honno.

Mae gwybodaeth am **sut i wneud cwyn** ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Ni all Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymdrin â chwynion am landlordiaid preifat.

Adrodd problem i'r tîm iechyd amgylcheddol lleol

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am orfodi safonau tai yn eu hardal leol. Mae ganddynt bwerau o dan **Ddeddf Tai 2004** i archwilio eiddo ac i gymryd camau gorfodi pan fo peryglon yn cael eu nodi.

Gallwch ofyn i'r awdurdod lleol archwilio'r eiddo os ydych o'r farn bod perygl wedi codi sy'n peri risg i'ch iechyd a'ch diogelwch.

Fel arfer, bydd swyddog iechyd yr amgylchedd yn defnyddio'r **System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai** (HHSRS) i asesu a oes peryglon yn yr eiddo sy'n debygol o beri risg i'r preswylydd, a pha mor ddifrifol y gallai'r niwed fod. Os bydd yr archwiliad yn canfod peryglon difrifol yn yr eiddo, **bydd yn ofynnol** i'r awdurdod lleol gymryd camau gorfodi er mwyn sicrhau bod y perchennog yn mynd i'r afael â'r broblem.

Fodd bynnag, ni all awdurdodau lleol gymryd camau gorfodi yn erbyn eu hunain, sy'n golygu nad oes modd iddynt ddefnyddio eu pwerau mewn perthynas ag unrhyw eiddo y maent yn berchen arno.

Adrodd problem i Rhentu Doeth Cymru

Os ydych yn rhentu cartref gan **landlord preifat** nad yw wedi gwneud y gwaith atgyweirio y mae'n gyfrifol amdano, gallech ystyried **adrodd y mater i Rhentu Doeth Cymru**.

Rhentu Doeth Cymru yw'r awdurdod trwyddedu ar gyfer landlordiaid preifat yng Nghymru. Mae'n gyfrifol am sicrhau bod landlordiaid yn cydymffurfio â gofynion penodol o dan y gyfraith, gan gynnwys cymryd camau gorfodi lle bo'n briodol.

Ni all Rhentu Doeth Cymru ymchwilio i gyflwr eiddo na gorfodi eich landlord i wneud gwaith atgyweirio. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yn gallu sicrhau bod eich landlord neu asiant yn cydymffurfio ag agweddau eraill ar y gyfraith.

Ni all Rhentu Doeth Cymru ymdrin â chwynion am gynghorau na landlordiaid cymdeithasau tai.

Cymryd camau cyfreithiol

Mae'n bosibl y bydd tenant yn gallu mynd â'i landlord i'r llys os nad yw'r landlord wedi cyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol i wneud gwaith atgyweirio angenrheidiol o fewn amser rhesymol.

Cyn cymryd camau cyfreithiol, bydd angen i chi ddangos eich bod wedi ceisio datrys y broblem gyda'ch landlord yn y lle cyntaf, ac yna eich bod wedi rhoi cyfnod rhesymol o amser iddo ymateb.

Gall llys orchymyn i landlord wneud gwaith atgyweirio penodol erbyn amser penodol neu, mewn rhai amgylchiadau, i dalu iawndal i denant. Fodd bynnag, gall mynd ag achos i'r llys fod yn broses ddud, ac os byddwch yn colli'r achos, mae'n bosibl y bydd gofyn i chi dalu costau cyfreithiol eich landlord.

Cyngor **Shelter Cymru** yw bod mynd ag achos i'r llys yn gallu bod yn broses hir a chymhleth, ac efallai'r peth gorau i chi ei wneud yn y lle cyntaf yw rhoi cynnig ar ddulliau eraill o ddatrys y broblem. Mae gan sefydliad Cyngor ar Bopeth **wybodaeth ar ei wefan** am yr hyn y dylai tenantiaid feddwl amdano wrth ystyried cymryd camau cyfreithiol.

Dylech geisio cyngor cyfreithiol cyn ystyried mynd â'ch landlord i'r llys. Mae gwasanaethau cynghori ar gael sy'n gallu darparu cyngor annibynnol i chi yn rhad ac am ddim. Mewn rhai achosion, gall y gwasanaethau hyn eich cynrychioli yn y llys, os oes angen.

Mae rhestr o ffynonellau cyngor a chymorth i'w gweld ar ddiwedd y canllaw hwn. Mae Ymchwil y Senedd hefyd wedi cyhoeddi **canllaw ar gael cyngor cyfreithiol**.

Mae **cwmnïau rheoli hawliadau** yn gwmnïau neu'n unigolion a all eich cynorthwyo i gymryd camau cyfreithiol. Os ydych yn defnyddio cwmni rheoli hawliadau, bydd angen i chi dalu ffi i'r cwmni neu roi canran o unrhyw iawndal a gewch iddo.

Rhaid i gwmnïau sy'n darparu gwasanaethau rheoli hawliadau gael eu hawdurdodi gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol neu gan reoleiddiwr cyfreithiol. Mae rheolau ynghlwm wrth yr hyn y gall cwmni ei wneud wrth eich cynrychioli, a'r hyn na all ei wneud.

Gallwch ddarllen mwy am gwmnïau rheoli hawliadau a chael gwybodaeth am sut i wirio manylion y cwmni ar **wefan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol**.

5. Cael cyngor a chymorth

Gallwch gysylltu â'r sefydliadau a ganlyn i gael cyngor neu gymorth gyda phroblemau tai.

Shelter Cymru

Mae **Shelter Cymru** yn gallu darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth gyda materion tai. Gallwch gysylltu â Shelter Cymru yn y ffyrdd a ganlyn:

- **Llinell gymorth** sydd ar agor rhwng 9am a 4pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener (08000 495 495)
- **Gwasanaeth gwibnegeseuon** sydd ar agor rhwng 9am a 4pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener

Mae Shelter Cymru yn cyhoeddi **gwybodaeth a chynghor am waith atgyweirio ac amodau tai gwael** ar ei wefan.

Cyngor ar Bopeth

Mae **Cyngor ar Bopeth** yn cynnig cyngor ar-lein, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb, a hynny'n rhad ac am ddim. Gallwch gael cyngor yn y ffyrdd a ganlyn:

- Ffonio gwasanaeth Advicelink, sydd ar agor rhwng 9am a 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener (0800 702 2020)
- Defnyddio'r cyfleuster **sgwrsio ar-lein**, sydd ar agor rhwng 9am a 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.
- Cysylltu â'ch **swyddfa Cyngor ar Bopeth leol**.

Mae Cyngor ar Bopeth yn cyhoeddi **gwybodaeth a chynghor am waith atgyweirio ac amodau tai** ar ei wefan.